

Penderfyniadau

Is-bwyllgor Trwyddedu

I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD

Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 11 Tachwedd 2020

Gwnaeth y Is-bwyllgor Trwyddedu y penderfyniadau canlynol ar 10 Tachwedd 2020, a ddaeth i rym ar unwaith.

Cynghorwyr: J Hughes (Cadeirydd), Yvonne Forsey, Joan Watkins

LIC PAN 05/20

Penderfyniad

Adolygiad o drwydded mangre o dan adran 51 o Ddeddf Trwyddedu 2003, Breeze, 11-15 Heol Cambrian, Casnewydd, NP20 4AD

Rhoddodd y Pwyllgor Trwyddedu ystyriaeth ofalus i sylwadau gan yr ymgeisydd ar gyfer yr adolygiad trwyddedu gan Safonau Masnach Cyngor Dinas Casnewydd, Heddlu Gwent a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a chan Mr Roger James, cyfreithiwr, a gynrychiolodd Breeze, ochr yn ochr â'r perchennog, Mr Jack Banister, a deiliad y drwydded a goruchwyliwr dynodedig y fangre, Mr Colin Simpson.

Roedd yn amlwg o'r ffilm teledu cylch cyfyng a gyflwynwyd gan Safonau Masnach bod ardal VIP i fyny'r grisiau yn Breeze, ar 4 a 5 Medi 2020, wedi methu â chydymffurfio â Rheoliad 12(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau'r Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ac felly'n tansellio amcanion trwyddedu Diogelwch y Cyhoedd a Throsedd ac Anrhefn. Roedd yn amlwg iawn nad oedd pobl yn yr ardal VIP, gan gynnwys y staff, yn cadw pellter cymdeithasol yn unol â'r rheoliadau.

Nododd y pwyllgor fod y fangre yn gyffredinol wedi rhoi nifer o arferion ar waith i sicrhau cydymffurfedd â rheoliadau COVID-19 a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, yn anffodus, roedd yn amlwg i'r pwyllgor, ar y nosweithiau dan sylw, ac er bod yr ardal i lawr y grisiau i'w gweld yn cydymffurfio'n fras, bod y fangre wedi methu'n llwyr â chydymffurfio â rheoliadau COVID-19 yn yr ardal VIP. Roedd yn siomedig iawn gan y pwyllgor nodi, er bod perchennog y fangre yn bresennol ar 4 Medi 2020, ei fod wedi anwybyddu'r hyn a oedd yn digwydd yn yr ardal VIP o'r man lle'r oedd yn eistedd yn llwyr. Ac er bod y perchennog yn honni ei fod yn gwsmer y noson honno, roedd y pwyllgor o'r farn y byddai unrhyw berchennog cyfrifol wedi siarad â'r tîm rheoli neu'r staff wrth y drws i sicrhau cydymffurfedd. Fodd bynnag, methodd y perchennog â gwneud hyn, ac yn wir fe dorrodd y rheoliadau trwy fethu â chadw pellter cymdeithasol yn gywir oddi wrth gwsmeriaid a staff eraill.

Er bod y pwyllgor yn deall yn iawn bod mangreoedd trwyddedig wedi gweld COVID-19 yn hynod o heriol, daeth i'r casgliad yn yr achos hwn fod y perchennog wedi methu â chymryd cyfrifoldeb am ei weithredoedd ei hun, gweithredoedd ei gwsmeriaid a gweithredoedd ei staff ac felly wedi tanseilio'r amcanion trwyddedu yn ddifrifol ac wedi gosod y gymuned leol mewn perygl pellach o ledaenu COVID-19.

Felly mae'r Pwyllgor Trwyddedu wedi penderfynu ar y canlynol:

Teimlai'r pwyllgor y byddai ataliad o fis yn gymesur o ystyried natur ddifrifol iawn yr achosion o dorri rheoliadau COVID-19 a ddigwyddodd ar 4 a 5 Medi yn yr ardal VIP, ond mae hefyd wedi ystyried y canlynol fel ffactorau lliniarol:

- Ymddygiad da hanesyddol y fangre
- Y camau a gymerwyd gan y fangre ar ôl i gwsmer adrodd bod ganddo COVID-19 a'i fod wedi bod yn ardal VIP Breeze
- Roedd yr adeilad wedi ei gau oherwydd cyfyngiadau COVID-19 yn ystod y cyfnod atal byr
- Byddai'r ataliad yn digwydd ar ddechrau cyfnod y Nadolig

Felly, penderfynodd y pwyllgor:

1) Atal y drwydded mangre am gyfnod o bythefnos (14 diwrnod)

2) Atodi'r amodau a ganlyn i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu:

- Mae'n ofynnol i bob gweithgaredd trwyddedu ddod i ben am 11pm oni bai fod yr amodau canlynol yn cael eu bodloni.
- Bod yn rhaid i oruchwyliwr dynodedig y fangre a enwir fod yn y fangre o 9pm tan 30 munud ar ôl cau'r fangre, er, yn absenoldeb y goruchwyliwr, y dylai fod "dirprwy reolwr" a enwir sy'n dal trwydded bersonol yn y fangre ar ôl 9pm tan 30 munud ar ôl cau. Mae'n ofynnol i'r fangre hysbysu'r awdurdod trwyddedu a Heddlu Gwent yn ysgrifenedig am y "dirprwy reolwr" a enwir ynghyd â manylion ei drwydded bersonol. (Ni all goruchwyliwr dynodedig y fangre neu'r "dirprwy reolwr" fod yn Mr Jack Banister.)
- Roedd yn ofynnol i'r fangre gael rhestr gywasgedig ysgrifenedig lawn o ddyletswyddau'r "dirprwy reolwr" yn absenoldeb goruchwyliwr dynodedig y fangre. Rhaid i'r awdurdod trwyddedu a Heddlu Gwent gytuno ar hon yn ysgrifenedig. Roedd yn ofynnol i'r "dirprwy reolwr" lofnodi a dyddio ei fod yn deall y ddyletswyddau'n glir yn absenoldeb goruchwyliwr dynodedig y fangre, a rhaid i'r dirprwy reolwr lofnodi'r ddogfen o leiaf bob chwe mis i nodi ei fod yn deall ei gyfrifoldebau'n llawn.
- Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod unrhyw giw i fynd i mewn i'r fangre sy'n ffurfio y tu allan i'r fangre yn drefnus ac yn cael ei oruchwylio gan staff wrth y drws er mwyn sicrhau nad oes unrhyw niwsans neu rwystr cyhoeddus.
- Pan oedd yr ardal/bar i fyny'r grisiau (yr ardal VIP) ar agor i'r cyhoedd/cwsmeriaid, dylai o leiaf un aelod o staff drws Awdurdod y Diwydiant Diogelwch fod yn bresennol yn yr ardal hon ar ôl 9pm.
- Yr holl staff i gael eu hyfforddi'n briodol yn unol â'u rôl, yn enwedig ar y pwynt gwasanaeth, lle byddent yn cael eu hyfforddi mewn perthynas â throseddau trwyddedu ac amodau trwydded, a'u gwneud yn ymwybodol o'r amcanion trwyddedu.

Ymgynghoriad

Gweithredir gan: 10 Tachwedd 2020

Amserlen Weithredu: Ar unwaith
